

DYDDIADURON GOHIRIEDIG

Y newyddlen ar gyfer aelodau nad ydynt bellach yn cyfrannu i Gronfa Bensiynau Clwyd: Gaeaf 2025

Croeso

Mae'r rhifyn hwn o Ddyddiaduron Gohiriedig yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ynghylch eich pensiwn gohiriedig gyda Chronfa Bensiynau Clwyd. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol megis:

- Rhestr Wirio ar gyfer Pensiynau: Bod yn Ddoeth gyda Phensiynau!
- Newidiadau i'r oedran ymddeol isaf
- Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r CPLIL
- Y wybodaeth ariannol ddiweddaraf gan Gronfa Bensiynau Clwyd

Cysylltwch os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y newyddlen hon. Mae ein manylion cyswllt ni ar gael ar waelod y newyddlen hon.

Cofion cynnes,
Karen Williams

Rheolwr Gweinyddu Pensiynau



Rheoliadau: Newid i'r oedran ymddeol isafswm



Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych chi angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y Cynwyd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni.

Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.



Cofiwch hyn os ydych chi'n ystyried ymddeol yn gynnar.

Rheoliadau: Lwfans cyfandaliad

O 6 Ebrill 2024 ymlaen, disodlodd y Llywodraeth y lwfans oes gyda chyfyngiad newydd o'r enw lwfans cyfandaliad. Dyma'r uchafswm arian parod di-dreth y gallwch chi ei gymryd o'ch holl bensiynau yn ystod eich oes.

Ar hyn o bryd, uchafswm y cyfandaliad yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275
- £268,275 tynnu cyfanswm y cyfandaliadau rydych chi eisoes wedi'u cymryd

Os oes gennych chi drefniant diogelu Lwfans Oes dilys, efallai y cewch chi gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd y cyfandaliad yn ddi-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

I'r rhan fwyaf o aelodau'r CPLIL, bydd eich cyfandaliad yn dod o fewn y lwfans. Ond os oes gennych chi gryn dipyn o gynilion pensiwn neu sawl pensiwn, efallai yr hoffech chi gael golwg ar faint o'ch lwfans cyfandaliad rydych chi'n ei ddefnyddio.



CYNGOR CLWYD: Ydi'ch manylion chi'n gyfredol? Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau'n dibynnu ar hyn!



Gyda'r Dangosfwrdd Pensiynau ar y ffordd, mae'n bwysicach nac erioed eich bod yn gwneud yn siŵr eich bod wedi rhoi eich manylion personol a chyswllt cywir i ni.

Rhowch wybod i ni os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad, eich rhif ffôn, eich cyfeiriad e-bost neu eich enw. Mae hyn yn ein helpu ni i wneud yn siŵr nad ydych chi'n colli unrhyw wybodaeth allweddol a bod y wybodaeth gywir am eich pensiwn yn dangos ar y Dangosfwrdd.



Gallwch ddiweddarau eich manylion cyswllt drwy fewngofnodi i'ch cyfrif **Hunanwasanaeth Aelodau** neu ysgrifennu atom ni, ond bydd angen i chi roi prawf i ni o unrhyw newidiadau i'ch enw.



Rheoliadau: Ymgynghoriad Mynediad a Thegwch



Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar newidiadau i wneud y CPLIL yn decach. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Buddion goroeswr cyfartal i bob partner
- Talu grantiau marwolaeth hyd yn oed os bydd aelod y CPLIL dros 75 oed yn marw
- Cysylltu ag aelodau gohiriedig sydd wedi dewis peidio talu cyfraniadau CPLIL i weld a hoffen nhw ailgychwyn talu
- Ei gwneud yn haws deall y bwlch rhwng pensiynau dynion a merched

Beth yw'r bwlch pensiwn rhwng y rhywiau?

Mae merched yn aml yn ymddeol gyda llai o bensiwn na dynion. Gelwir hyn yn fwllch rhwng pensiynau dynion a merched.

Pam fod hyn yn digwydd?

- Mae merched yn fwy tebygol o gymryd seibiant o'u gwaith i ofalu am eu teulu
- Mae mwy o ferched yn gweithio'n rhan-amser, felly'n talu llai tuag at eu pensiwn
- Gall cyflogau merched fod yn is, sy'n effeithio gwerth eu pensiwn adeg ymddeol.

Mae'r Ymgynghoriad Mynediad a Thegwch yn disgwyl i rai o'r newidiadau hyn gael eu rhoi ar waith, ond nid yw hyn wedi digwydd eto. Pan gaiff y newidiadau eu cadarnhau, bydd rheolau'r CPLIL yn cael eu diweddarau (a'u hôl-ddyddio os yw hyn yn berthnasol). Cadwch lygad ar ohebiaeth yn y dyfodol i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Rheoliadau: Trosglwyddo allan

Os ydych eisiau trosglwyddo allan, mae'n rhaid i chi wneud hyn o leiaf 12 mis cyn eich oedran ymddeol arferol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r oedran ymddeol arferol rhwng 60 ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae eich oedran ymddeol arferol ar y datganiadau pensiwn gohiriedig yr ydych yn eu derbyn gan Gronfa Bensiynau Clwyd bob blwyddyn.

Dyma'r camau tuag at drefnu trosglwyddiad:

1. Gwiriwch gyda'ch darparwr pensiwn newydd y byddant yn derbyn trosglwyddiadau a'ch bod o fewn unrhyw ddyddiad cau sydd ganddynt ar gyfer eu derbyn.
2. Os felly, rhowch wybod i'ch darparwr pensiwn newydd i gysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd ar eich rhan, i gael dyfynbris trosglwyddo. Efallai bod ganddynt broses ar-lein neu ffurflen i chi wneud hyn.
3. Byddwn yn cyfrifo'r dyfynbris ac yn ei roi i'ch darparwr pensiwn newydd. Byddant hwy yn rhoi gwybod i chi pa fuddion pensiwn y byddai'r trosglwyddiad yn ei brynu yn eu cynllun.

Ond byddwch yn ofalus. Ar ôl i chi drosglwyddo eich pensiwn i gronfa sy'n sgam, fe fydd hi'n rhy hwyr. Fe allech chi golli eich cynilion pensiwn i gyd.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod chi'n gallu nodi arwyddion sgamiau pensiwn. Mae rhai tactegau sgamwyr yn cynnwys:

- Cynnig adolygiadau pensiwn neu wiriadau iechyd am ddim
- Addo gwell enillion ar arbedion



- Awgrymu eich bod chi'n ceisio tynnu eich buddion pensiwn cyn i chi droi'n 55 oed
- Hyrwyddo bylchau treth, benthyciadau pensiwn neu arian parod
- Eich gorfodi chi i weithredu'n gyflym i derfynau amser tynn neu gynigion unwaith yn unig
- Cysylltu â chi yn gwbl annisgwyl.

Am ragor o awgrymiadau ar ddiogelu eich pensiwn, ewch i www.fca.org.uk/scamsmart (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Rheoliadau: McCloud a datganiad buddion blynyddol gohiriedig 2025



Efallai eich bod chi wedi sylwi ar adran newydd yn natganiad buddion blynyddol gohiriedig 2025 o'r enw swm gwarantedig terfynol (SGT). Mae hwn yn rhan o'r gwaith rydym ni wedi'i wneud i ddangos i chi sut y gallai **Rhwymedi McCloud** effeithio ar eich pensiwn.

Digwyddodd Rhwymedi McCloud oherwydd achos llys cenedlaethol. Bu i'r llysoedd ganfod gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn sector cyhoeddus rhai aelodau iau a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn cyn 1 Ebrill 2012.

Mae'r SGT yn swm sydd eisoes wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif o gyfanswm eich pensiwn ar y datganiad. Dim ond os bydd yn rhoi gwell pensiwn i chi pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion y cewch chi'r swm hwn. Bydd y swm terfynol yn cael ei gyfrifo bryd hynny.

Methu gweld y SGT ar eich datganiad?

Efallai nad ydych chi'n gymwys, neu efallai ein bod yn dal i fod wrthi'n gwirio hynny. Byddwn yn siŵr o roi gwybod i chi yn natganiad 2026 neu pan fyddwch chi'n dechrau cymryd eich pensiwn gyda ni, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Ychydig iawn o aelodau fydd yn gymwys am SGT.

Cyllid: Cipolwg o ffeithiau a ffigyrau 2024/2025

Bydd ein cyfrifon ar gyfer 2024/2025 yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa fydd ar gael ar ein gwefan ar ddiwedd 2025. Yn y cyfamser, dyma’r ffigyrau a archwiliwyd ar gyfer 2023/2024.

Telir y cyfraniadau i mewn i’r Gronfa gan gyflogwyr a’u gweithwyr. Caiff unrhyw arian nad oes ei angen i dalu buddion pensiwn yn y tymor byr ei fuddsoddi i ddarparu buddion yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu buddsoddi yn unol â’n Strategaeth Fuddsoddi a’n Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae ein Datganiad Strategaeth Fuddsoddi i’w weld yn adran strategaethau a pholisïau ein gwefan:

cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisïau/cartref.aspx

Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun â buddion diffiniedig, nid yw buddsoddiadau’r Gronfa’n cael unrhyw effaith ariannol ar werth eich buddion pensiwn chi. Felly darperir y ffigyrau isod er gwybodaeth yn unig.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â buddsoddiadau neu gyfrifon y Gronfa, e-bost i buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk



Incwm 2023/2024		Gwariant 2023/2024	
Incwm	£m	Gwariant	£m
Gweithwyr	21,808	Pensiynau	78,691
Cyflogwyr	59,662	Cyfandaliadau	18,922
Incwm buddsoddi	35,158	Arall	38,482
Arall	5,493	Diffyg net	-13,974
	<u>122,121</u>		<u>122,121</u>
Cyfranwyr 31 Mawrth 2024		Pensiynwyr 31 Mawrth 2024	
Pob cyfrannwr	<u>17,813</u>	Aelodau wedi ymddeol a dibynyddion	15,796
		Buddion a gedwir	18,383
			<u>34,179</u>
Gwerth y gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2024		Newid mewn asedau net	
	£m		£m
Gwarantau llog sefydlog	904,445	Y Gronfa ar 1 Ebrill 2023	2,302,598
Ecwiti Cynaliadwy	344,501	Arian newydd net	-13,974
Buddsoddiadau amgen	889,528	Newid yng ngwerth y farchnad yn ystod y flwyddyn	
Buddsoddiadau DU, Lleol ac Effaith	211,746	Elw wedi’l wireddu a heb ei wireddu	192,096
Arian Parod a Symiau Cywerth	125,059	Y Gronfa ar 31 Mawrth 2024	<u>2,480,720</u>
Asedau net	5,441		
	<u>2,480,720</u>		

Rhestr Wirio ar gyfer Pensiynau: Bod yn Ddoeth gyda Phensiynau!

Waeth beth fo'ch oedran, dydi hi byth yn rhy gynnar nac yn rhy hwyr i ddechrau meddwl am eich pensiwn.

Gall y camau rydych chi'n eu cymryd heddiw wneud gwahaniaeth mawr i'ch tawelwch meddwl yn y dyfodol.

I'ch helpu chi aros ar y trywydd cywir, rydym ni wedi llunio rhestr wirio syml o ambell beth i chi feddwl amdany'n nhw ar wahanol adegau.

Blynyddoedd maith nes byddwch chi'n ymddeol?

Cychwynnwch yn Gadarn Beth Bynnag

- Dewch i ddeall sut mae'r CPLIL yn gweithio a chofrestrwch i gael cyfrif **Hunanwasanaeth Aelodau**
- Ewch ati i wirio eich datganiadau buddion blynyddol
- Enwebwch un neu fwy o fuddiolwyr ar gyfer eich grant marwolaeth
- Diweddarwch eich manylion cyswllt
- Meddyliwch am eich swyddi yn y dyfodol. Os byddwch chi'n dod yn ôl i lywodraeth leol neu i swydd arall sydd â CPLIL, efallai y gallwch chi gyfuno buddion eich CPLIL

Ar ganol eich gyrfa? Adolygwch a Chynlluniwch

- Adolygwch eich datganiadau pensiwn a defnyddiwch y gyfrifiannell ar-lein sy'n rhan o'r **Hunanwasanaeth Aelodau**
- Gwiriwch ragolygon **Pensiwn y Wladwriaeth**
- Ewch ati i ddiweddarau eich manylion mynegi dymuniad grant marwolaeth
- Meddyliwch am ffyrdd eraill o gynilo ar gyfer ymddeol
- Os oes gennych chi gronfeydd pensiwn eraill, ystyriwch eich opsiynau, ond ceisiwch gyngor yn gyntaf

Agosáu at Ymddeol? Paratowch

- Ceisiwch amcangyfrifon o incwm eich CPLIL a Phensiwn y Wladwriaeth
- Penderfynwch pryd y byddwch chi'n ymddeol a faint o gyfandaliad i'w gymryd (os ydych chi am gymryd un)
- Dysgwch am ostyngiadau ymddeol yn gynnar
- Chwiliwch am bob tystysgrif berthnasol ac anfonwch gopiâu atom ni
- Ceisiwch gyngor annibynnol os ydych chi'n cyfuno pensiynau neu gynilion eraill




Fy Nodiadau

Blank lined area for notes.

Proses Ymddeol

CAM WRTH GAM



Adborth o'r arolwg

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn eich arolwg boddhad aelodau y llynedd.

Mae eich adborth wir o fudd i ni ddod i ddeall beth sy'n gweithio a lle gallwn ni wella. Dyma ddywedoch chi wrthym ni:

- Mae nifer ohonoch chi'n cael tawelwch meddwl o wybod bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn gofalu am eich buddion.
- Rydych chi'n gwerthfawrogi ein cymorth i staff, ein gwybodaeth ysgrifenedig a'n defnydd o'r Gymraeg yn arbennig.
- Mae rhai aelodau'n meddwl bod llythyrau pensiwn yn ddryslyd, ac fe hoffen nhw gael ffigurau mwy eglur, gwybodaeth yn gynt, a mwy o ddewis o ran cael copïau Cymraeg.

Dyma rydym ni'n ei wneud:

- Gwneud y llythyrau'n symlach ac yn fwy eglur
- Gweithio ar anfon y wybodaeth yn gynt
- Cynnig mwy o ddewis o ran sut y gallwch chi dderbyn y wybodaeth
- Parhau i gynnig cymorth hawdd ei gael

Mae arolwg eleni bellach ar gael, felly tybed a fydddech chi cystal â threulio ychydig funudau'n rhannu eich barn unwaith eto. Byddem yn falch iawn o glywed gennych chi!



Manylion cyswllt Cronfa Bensiynau Clwyd



E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Rhif Ffôn: 01352 702875
(dydd Llun i ddydd Gwener
9am i 5pm)

Gwefan: cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd,
Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant,
Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Manylion cyswllt defnyddiol eraill

Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg.

Gwasanaeth Olrhain Pensiynau	www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn	0800 731 0193
HelpwrArian (cyngor ariannol)	www.moneyhelper.org.uk/cy	0800 011 3797
Unbiased (cyngor ariannol)	www.unbiased.co.uk	0800 023 6868
Cyngor ar Bopeth (cyngor ariannol)	www.citizensadvice.org.uk/cymraeg	0800 702 2020 (Cymru) 0800 144 8848 (Lloegr)
Pensiwn y Wladwriaeth	www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd	0800 731 7898

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, Braille, print bras, Fideo/DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain ac ieithoedd eraill ar gais.



Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd fesurau seiberddiogelwch cadarn ar waith i gadw gwybodaeth am eich pensiwn yn ddiogel. Mae ein systemau'n cael eu monitro'n gyson, ac rydym yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ddiogelu yn erbyn bygythiadau. I'n helpu i gadw eich data'n ddiogel, dylech ddefnyddio cyfrineiriau cryf, bod yn ofalus wrth anfon gwybodaeth personol atom ar e-bost, gwylio am e-byst twyllodrus a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael unrhyw beth amheus.